Y LLINYN ARIAN

Cylchgrawn Capel Salem,Caernarfon. Pasg 2026

www.capelsalemcaernarfon.com

Llun: 'Haleliwia!' gan Mike Moyers: mike-moyers.pixels.com

Gweddi'r Pasg

Parch Elfed apNefydd Roberts

Grist atgyfodedig, a ddaethost at Mair yn ei dagrau yn yr ardd a throi ei thristwch yn orfoledd.

Tyrd atom ni yn awr

Grist atgyfodedig a sefaist ymysg dy ddisgyblion i ddangos iddynt dy ddwylo a'th draed a'u codi o afael eu hamehuon

Tyrd atom i gadarnhau ein ffydd

Grist atgyfodedig, a gerddais gyda'r ddau ar ffordd Emmaus ac a amlygaist dy hun iddynt yn nhoriad y bara.

Tyrd atom i agor ein llygaid i ni dy weld.

Grist atgyfodedig a ddaethost at Pedr ar lan y môr, i'w ryddhau o'i euogrwydd ac i osod arno'r dasg o fugeilio dy braidd.

Tyrd atom i'n nerthu yn dy waith.

Grist atgyfodedig, yr wyt yn sefyll yn ein mysg, yn cyfarfod â ni, yn siarad â ni, yn mynegi i ni addewidion y Tad:

Dathlwn y bywyd newydd a ddaw i ni drwy dy fuddugoliaeth ar angau a'r bedd ac i ti y bo'r clod a'r gogoniant, yn oes oesoedd.

AMEN

Gair gan y Gweinidog

Mae'n gyfnod y Grawys—cyfnod i baratoi at y Pasg. Byddwn yn dweud rhywbeth tebyg yn ystod yr Adfent yn byddwn—cyfnod o baratoi at y Nadolig. Y peth cyntaf sy'n dod i'r meddwl wrth ddweud 'paratoi' ydy pethau ymarferol. Mae'r Adfent yn gyfnod o brynu anrhegion a meddwl am addurno a sicrhau fod digon o fwyd yn y ty. Mae'n debyg nad oes yr un prysurdeb wrth baratoi at y Pasg; er mae angen prynu wyau Pasg i blant bach (a mawr!) y teulu. Bydd rhai yn dod at ei gilydd i gael pryd o fwyd a gyda gwyl y banc ceir cyfle, gobeithio, i ymlacio ychydig. Er mae'r cyfnod yma yn adeg i dacluso a didoli cyn yr Haf felly gallwn fod reit brysur hefyd! Efallai bydd cyfle i wneud ychydig o arddio a pharatoi'r ardd ar gyfer misoedd yr Haf.

Ond mewn gwirionedd, nid cyfnod o baratoi ymarferol ydy pwrpas yr Adfent a'r Grawys mewn gwirionedd, ond cynfod o baratoi yn ysbrydol. Mewn byd sydd mor faterol a phrysur, yn aml byddwn yn anghofio ein bod angen amser a gofod i fod yn dawel ac ystyried ein profiadau bywyd o ddydd i ddydd. Fel Cristnogion, mae Crist yn ein dysgu am bwysigrwydd gweddi a cheisio Duw yn ein bywyd bob dydd. Mae'r Adfent a'r Grawys yn gyfle da i ni ystyried hyn o ddifri a rhoi mwy o le i Dduw a Christ yn ein bywyd bob dydd. Yn ystod y Grawys, yr ydym yn cofio am Iesu yn treulio deugain diwrnod a deugain nos yn yr anialwch yn cael ei demtio gan y diafol. Llwyddodd i wrthsefyll hyn, drwy bwyso ar Dduw ac ar Air Duw.

Yn yr un modd, cawn ein harwain yn ystod y Grawys i bwyso fwy fwy ar Dduw a'i Air yn ein bywydau. Ein gobaith drwy hynny yw profi cariad a gras Duw tuag atom yn ddyfnach. Wrth i ni ddathlu Gwyl y Pasg eleni, gadewch i ni ystyried o'r newydd aberth, cariad a gras y Groes a gorfoledd, llawenydd a gobaith y bedd gwag.

Iesu a gyfodwyd,
Rhyfedd wyrth ein Duw,
Testun diolch bythol
I holl ddynol-ryw
Diorseddwyd pechod, cafodd angau glwy'
Byw yw'r neb a gredo yn yr Iesu mwy.

Meddyliwn am y rhai sydd yn yr Ysbyty neu wedi treulio amser yn yr Ysbyty yn ddiweddar:

Mrs Brenda Owen

Mrs Menai Roberts

Danfonwn ein cyfarchion cynhesaf i'r rhai mewn Cartrefi Preswyl a'r rhai sy'n gaeth i'w cartrefi

Cartref BrynRhos, Brynsiencyn : Mr Derwyn Roberts
Cartef Golwg yr Wyddfa, Llanberis : Mrs Gweneirys Jones.
Cartref Plas Maesincla: Mrs Carys Medi Hill

Mrs Iola Grisdale, Y Glog.



<u>Colli Aelodau</u>

Mr John Howard Hughes

Yn Mis Rhagfyr, daeth y newyddion am farwolaeth Mr John Howard Hughes. Ymaelododd John a'i wraig Gwenno â ni yn Salem pan gaewyd Capel Ebeneser. Roedd unrhyw un oedd yn adnabod John yn gyfarwydd â'i gymeriad cynnes a hwyliog. Roedd wastad sgwrs ddifyr i'w gael efo fo a digon o dynnu coes. Gwyddom hefyd am ei dalent gerddorol; yn ganwr talentog ac aelod o Gôr Meibion Caernarfon am flynyddoedd. Yn y blynyddoedd diwethaf, dysgodd ganu'r corn ac ymuno â band cymunedol Band Biwmares; Last of the Summer Wind. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Bangor ar 22 Rhagfyr a cyflwynwyd y deyrnged iddo gan ei fab Rhys a'i wyr Tomos. Meddyliwn am y teulu cyfan, yn enwedig ei wraig Gwenno.

Mrs Lallie Griffiths

Bu farw Lallie Griffiths ddechrau Mis Ionawr wedi cyfnod o salwch. Cynhaliwyd ei hangladd yn Salem ar 28 Ionawr. Yn y gwasanaeth cawsom gyfle i gofio am ffyddlondeb Lallie i eglwys Iesu Grist. Ers yn blentyn yn Capel Pisga, Carmel, roedd perthyn i Eglwys Iesu Grist a'i ffydd yn bwysig iawn iddi. Prin fyddai'n methu Sul yn Salem ac roedd yr un mor ffyddlon i'r Gymdeithas ac unrhyw weithgaredd yn y capel. Yr oedd yr un peth yn wir am ei ffyddlondeb i gymdeithasau eraill, yn enwedig Merched y Wawr. Roedd yn aelod o'r orsedd a diwylliant cerddorol Cymru yn andros o bwysig iddi. Meddyliwn am ei gwr Elwyn a'r teulu ehangach.

Mrs Nancy Griffiths

Ar 11 Mawrth bu farw un o aelodau hynaf Salem; Mrs Nancy Griffiths, Bron y Garth. Cafodd Nancy ei bedyddio a'i derbyn i Eglwys Salem yn ifanc ac yna priododd yn Salem hefyd yn 1951. Roedd wastad yn braf cael ymweld â Nancy a chael sgwrs—roedd wastad yn hwyliog ac yn ddiolchgar o bob dim bob amser. Roedd ganddi feddwl mawr o'i theulu; roedd yn nain i 9 ac yn hen nain i 20. Meddyliwn am Brenda, Marian a Wendy; ei merched a'u teuluoedd.

Salem i'r Dyfodol



Fel yr ydych yn gwybod, yr ydym wedi nodi 2026 ar gyfer ystyried ein dyfodol fel eglwys, ac yn bennaf, sefyllfa'r adeilad.

Fel yr ydym yn pwysleisio ers cychwyn ein trafodaethau:

Nid yw hyn yn golygu dod ag achos Salem i ben.

Ond rydym wedi penderfynu fel eglwys fod angen ystyried dulliau gwahanol o fod yn eglwys ar gyfer y cyfnod hwn ac i'r dyfodol. Cawsom ein cyfarfod cyntaf o bedwar cyfarfod Fis Chwefror ac roedd yn wych gweld cynifer wedi dod a chroesdoriad o oedran hefyd i ddechrau ein trafodaethau. Yn ein cyfarfod cyntaf, cawsom gyfle i drafod beth oeddem yn ei werthfawrogi am berthyn i Salem. Gellir gweld y sylwadau a dderbyniwyd ar y dudalen nesaf.

Bydd ein oedfa drafod nesaf yn cael ei gynnal ar benblwydd Salem ar 10 Mai. Bydd yn gyfle i ni ddathlu penblwydd 164 Salem yn ogystal â breuddwydio breuddwydion ar gyfer y dyfodol. Hynny ydy, yn yr oedfa, cawn gyfle i rannu unrhyw weledigaeth neu syniad heb boeni, ar hyn o bryd am fanylion neu sut i wireddu y syniadau! Bydd cyfle yn nes yn y flwyddyn i wneud hyn. Cynhelir oedfaon trafod hefyd ar 13 Medi a 8 Tachwedd.

Ond ar gyfer cyfarfod Mis Mai, beth am ddod at ein gilydd a meddwl yn greadigol am y cam ymlaen.

Pan ydan ni'n meddwl am Salem, beth rydych chi'n ei werthfawrogi?

- Cwmnïaeth, cyfeillgarwch a chroeso cynnes Taro Mewn, cyd-ganu a chyd-addoli; cyfleoedd i blant
- Ymdeimlad o berthyn, traddodiad, arferiad a threfn, cefnogaeth – pobl yn gefn i'w gilydd yn yr eglwys a'r tu allan iddi
- Gofal ymysg yr aelodau. Ffydd weithredol sy'n ymestyn y tu hwnt i ddrysau'r capel – parodrwydd yr aelodau i helpu a rhoi amser i wirfoddoli

Yn eich barn chi, beth yw'r tri peth pwysicaf y dylai'r Eglwys ei wneud

- Cefnogi ein gilydd; hyrwyddo egwyddorion yr Efengyl; gwneud i bobl deimlo'n ddiogel
- Addoli a chenhadu; gofalu; rhoi neges Crist ar waith
- Addoli Duw drwy gyfrwng gwasanaethau a sacramentau
- Gwneud trefniadau amgen a fydd yn denu cenhedlaeth iau yn ôl i addoli
- Rhoi blaenoriaeth i gydweithio eciwmenaidd lleol

Wrth feddwl am ffordd newydd o symud ymlaen yn Salem, enwch un peth sy'n anodd i chi?

- Dod i benderfyniad a fydd yn plesio pawb
- Beth i'w wneud efo'r adeilad? Nid yw'n addas i bwrpas bellach ac mae'n hawlio gormod o amser, arian ac egni a ddylai fynd ar bethau amgenach
- Gorfod neilltuo canran sylweddol o arian bob blwyddyn ar yr adeilad

Fedrwch chi feddwl am un peth, bach neu fawr – y byddech yn hoffi ei weld yn digwydd yn Salem yn y dyfodol

- Mwy o gyd-addoli yn y dref / uno enwadau
- Cyrraedd sefyllfa lle y gallwn symud ymlaen i ganolbwyntio ar hyrwyddo'r Efengyl heb orfod poeni am yr adeilad
- Bod yr adeilad ddim yn faen melin

CYFARFODYDD Y PASG

2 Ebrill 7 o'r gloch
Nos Iau Cablyd - Eglwys Santes Fair
3 Ebrill 10 o'r gloch
Bore Gwener y Groglith - Salem
Oedfa Gymun

Yn dilyn y Gwasaneth cynhelir tystiolaeth y Pasg gyda taith gerdded fer o amgylch y dref. Cyfarfod tu allan i Salem am 11

Nos Wener y Groglith 7 o'r gloch- Salem
Myfyrdod y Groglith
5 Ebrill - Sul y Pasg
Oedfa Deulu a Chymun

Ar nos Fercher, 17 Mehefin cynhelir Cymdeithas yr Haf. Byddwn yn gadael y festri ac yn ymweld â Hwb GISDA sydd newydd agor yn hen adeilad y Nat West. Cawn glywed ychydig o hanes y datblygiadau diweddar o fewn yr elusen. Yna cawn fynd i Bonta Deli i mwynhau buffet blasus! Cost: £15. **Enwau a'r arian i Emyr Evans erbyn 7 Mehefin, os gwelwch yn dda**

Gwyl Dewi

Ddim yn aml iawn bydd Dydd Gwyl Dewi yn disgyn ar y Sul - ond roedd eleni! Y tro dwytha ddigwyddodd hyn oedd yn 2020 - anodd ydy anghofio y flwyddyn honno. A bydd yn digwydd eto yn 2037 - rhag ofn eich bod yn pendroni am hynny! Mae yna rhywbeth arbennig am gael dathlu Dydd ein Nawdd Sant ar y Sul ac mewn oedfa. Fel arfer ar y Sul agosaf at y 1af byddwn yn cynnal oedfa Gwyl Dewi yn Salem. Ond eleni - roedd cyfle i ddathlu ac addoli. Cawsom oedfa deulu hyfryd gyda'r plant wedi gwisgo mewn gwisg Gymreig neu fel aelodau o dim rygbi neu bel-droed Cymru. Roedd yn braf clywed y plant yn dweud am eu hoff fannau yng Nghymru - a diolch i Elsi Mai am ein harwain mewn gweddi. Cawsom gyfle yn yr oedfa hefyd i gael cwis i'n helpu i ddysgu mwy am Dewi Sant a cofio geiriau ei bregeth enwog; Byddwch lawen, Cedwch eich ffydd a'ch cred a gwnewch y pethau bychain a welsoch ac a glywsoch gennyf fi.

Buom yn myfyrio hefyd ar adnodau o Lythyr cyntaf Paul at y Corinithiaid: ***Gwyliwch eich hunain. Daliwch i gredu. Byddwch yn ddewr. Byddwch yn gryf. Gwnewch bopeth mewn cariad.*** Yn dilyn yr oedfa roedd cyfle am baned a sgwrs - a chacen gri wrth gwrs— yn y festri. Dyma lun o'r plant; Gwion, Osian, Ifan, Tomos, Elsi, Gwen, Alys, Lleu, Begw ag Elsi Mai ar ôl mwynhau llond bol o gacennau cri!

Y Gymdeithas

Cafwyd Cyfarfod arbennig yn y Gymdeithas i ddathlu Gwyl Dewi. Daeth Yr Athro Angharad Price atom i son am ei thaith ddiweddar i'r India. Bu'n siarad am lenyddiaeth a llyfrau Cymraeg mewn sesiwn yng Ngwyl Lenyddol Kerala ac yn Ffair Lyfrau Kolkata., a da oedd cael clywed yr hanes. Roedd yn noson wirioneddol arbennig—diolch Angharad.